**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

28 Mehefin 2017

Annwyl Dai

Rwy'n falch iawn o roi gwybod i chi fy mod i a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol heddiw wedi cyhoeddi *Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol* at ddiben ymgynghori, sef Papur Gwyn sy'n cynnwys nifer o gynigion sy'n ymwneud ag ansawdd a llywodraethiant ym maes iechyd a gofal yng Nghymru. Bydd yr ymgynghoriad yn para tan 29 Medi 2017.

https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/gwasanaethau-syn-addas-ir-dyfodol

Ein gobaith yw y bydd y cyfeiriad a amlinellir yn y Papur Gwyn yn sylfaen i ganfyddiadau'r Adolygiad Seneddol, yr ydym i gyd yn aros yn eiddgar amdano.

Mae'r Papur Gwyn yn adeiladu ar ymgynghoriad blaenorol ar Bapur Gwyrdd, yn ogystal ag argymhellion a wnaed gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ac eraill ar y camau y gellid ystyried eu cymryd er mwyn galluogi a grymuso sefydliadau, staff a dinasyddion ymhellach wrth ddarparu gofal cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'n darparu cyfle prin i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth bosibl ar gyfer y dyfodol ac rwy'n sicr y bydd gan eich Pwyllgor ddiddordeb yn hyn.

Os gallaf i neu fy swyddogion ddarparu unrhyw wybodaeth i'r Pwyllgor, mae croeso ichi gysylltu â mi. Rwyf hefyd yn hapus i gyfarfod â chi i drafod y ffordd y byddwn yn cysylltu a throsglwyddo gwybodaeth i'r Pwyllgor am y Papur Gwyn.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.